# Ordinhad 2

# Y Cyngor: Cadeirydd y Cyngor

| | |
|---|---|
| **Corff cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 16 Ebrill 2021 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Dirprwy Ysgrifennydd |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiedig |
| **Fersiwn:** | 1.1 |
| **Dyddiad adolygu:** | Ebrill 2023 |

# Ordinhad 2
# Y Cyngor: Cadeirydd y Cyngor

1. Penodi Cadeirydd y Cyngor

Pan ddaw swydd Cadeirydd y Cyngor yn wag, bydd y Cyngor yn cyfarwyddo'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu - a'r Dirprwy Ganghellor yn cadeirio yn lle Cadeirydd y Cyngor sy'n gadael - i ymgymryd â phroses recriwtio allanol addas i nodi naill ai:

1) Aelod annibynnol newydd i'w benodi i'r Cyngor, ar y ddealltwriaeth y byddai'r unigolyn yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor; neu

2) Gwahodd enwebiadau gyda'r bwriad o ethol unigolyn sydd eisoes yn gwasanaethu ar y Cyngor fel aelod annibynnol, a'r cyfnod yn swydd y Cadeirydd heb fod yn fwy na dyddiad gorffen y penodiad gwreiddiol i'r Cyngor.

Wrth benodi i swydd wag Cadeirydd y Cyngor, bydd y Cyngor yn ystyried gallu'r Cyngor i gynnal ei fusnes yn Gymraeg ac yn Saesneg. Penodir Cadeirydd y Cyngor gan gyfeirio at y disgrifiad rôl ar gyfer Cadeirydd a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

2. Cyfnod y Swydd

Cyfnod swydd Cadeirydd y Cyngor fydd pedair blynedd. Bydd y Cadeirydd yn gymwys i'w benodi am gyfnod pellach o bedair blynedd yn amodol ar gyfnod hwyaf o wyth mlynedd ar y Cyngor fel Cadeirydd.

3. Swyddogaethau Cadeirydd y Cyngor

Bydd Cadeirydd y Cyngor yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a bennir gan y Cyngor, a fydd yn cynnwys:

i. Darparu arweinyddiaeth i'r Cyngor a chadeirio cyfarfodydd y Cyngor;

ii. Gweithredu fel Cadeirydd ex-officio ar bwyllgorau dewis i benodi'r Canghellor, y Dirprwy Ganghellorion a'r Is-Ganghellor;

iii. Rheolwr llinell ar yr Is-Ganghellor ar ran y Cyngor, ac ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r adnoddau dynol parthed yr unigolyn hwnnw; ac

iv. Ymgymryd â gweithgareddau ar ran y Brifysgol a mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Cadeiryddion y Brifysgol a chyrff eraill o'r fath.

4. Ymddiswyddo a diswyddo

i. Gall Cadeirydd y Cyngor ymddiswyddo trwy roi rhybudd ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Cyngor.

ii. Pan fydd ymddiswyddiad o'r fath yn digwydd, gall yr unigolyn dan sylw barhau fel aelod annibynnol o'r Cyngor. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath ni fydd cyfnod newydd yn dechrau.

iii. Os yw'r mwyafrif o blith y Dirprwy-Ganghellor/Gangellorion a'r Is-Ganghellor yn credu y dylid diswyddo Cadeirydd y Cyngor yn eu barn hwy:

a. Yn sylweddol, yn ystod y 12 mis blaenorol, ni allodd gyflawni'r swydd; neu
b. Methiant ac esgeulustod sylweddol i gyflawni'r swydd; neu
c. Ymddwyn mewn modd sy'n amhriodol i Gadeirydd y Cyngor.
d. Unrhyw achos da arall a ddiffinnir yn Ordinhad 1, paragraff 1.4.

Yna, rhaid sefydlu Panel sy'n cynnwys tri aelod lleyg o'r Cyngor, o dan gadeiryddiaeth Dirprwy-Ganghellor i ystyried yr achos a gwneud argymhelliad i'r Cyngor i gadarnhau neu ddiystyru. Caiff y Cadeirydd ei ddiswyddo os bydd mwyafrif o holl aelodau'r Cyngor yn pasio penderfyniad i wneud hynny.